

Crynodeb Gwirio Ansawdd Practis Meddygol The Stables Dyddiad y gweithgarwch: 08 Medi 2020

Dyddiad cyhoeddi: 17 Tachwedd 2020



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Cofnod o'r Canfyddiadau

Ein Dull Gweithredu

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) wriad ansawdd o bell o Bractis Meddygol The Stables fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull haenog newydd o ymdrin â gwaith sicrwydd ac maent yn un o blith nifer o ffyrdd y mae'n archwilio'r ffordd y mae gwasanaethau gofal iechyd yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 (a rheoliadau perthnasol eraill). Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd y gwriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefel weithredol a lefel strategol.

Mae gwiriadau ansawdd yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn lleoliadau gofal iechyd. Canolbwyntiodd y gwriad ansawdd hwn ar bedwar maes allweddol: trefniadau COVID-19; yr amgylchedd; atal a rheoli heintiau; a llywodraethu. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dull arolygu [yma](#).

Gwnaethom siarad â Rheolwr y Practis ar 08 Medi 2020 a roddodd wybodaeth a thystiolaeth inni am ei leoliad. Defnyddiwyd y llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau a ddarperir wedi gorfod addasu yn sgil COVID-19? Beth yw cynllun y practis ar gyfer dychwelyd i'r lefelau gwasanaeth a welwyd cyn COVID-19?
- Pa mor effeithiol y gallwch gael gafael ar weithwyr gofal sylfaenol proffesiynol ehangach, yn ogystal â gwasanaethau eraill megis timau iechyd meddwl, gofal eilaidd ac y tu allan i oriau ar hyn o bryd?
- Pa newidiadau rydych wedi'u rhoi ar waith yn sgil COVID-19 er mwyn sicrhau bod y safonau atal a rheoli heintiau'n cael eu cynnal?
- Sut rydych yn sicrhau bod cleifion (gan gynnwys y grwpiau sy'n agored i niwed/syn wynebu risg) yn gallu cael gafael ar wasanaethau'n briodol ac yn ddiogel? Yn eich ateb, cyfeiriwch at amgylchedd y practis a phrosesau i alluogi cleifion i gael apwyntiadau.

Trefniadau COVID-19

Yn ystod y broses hon, gwnaethom adolygu polisiâu allweddol mewn perthynas â diogelu staff a chleifion rhag COVID-19. Gwnaethom hefyd adolygu'r trefniadau sydd ar waith gan y gwasanaeth ar gyfer sicrhau, defnyddio a gwaredu cyfarpar diogelu personol yn briodol.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Cawsom wybod bod y practis ar gau i aelodau o'r cyhoedd ar ddechrau'r pandemig, a bod ymgynghoriadau dros y ffôn a fideo yn cael eu cynnal yn hytrach na rhai wyneb yn wyneb yn y mwyafrif helaeth o achosion. Hefyd, rhoddwyd rhaglen ar waith a oedd yn galluogi'r cleifion i gyflwyno lluniau a dogfennaeth drwy neges destun neu e-bost i gefnogi'r ymgynghoriadau hyn o bell, a galluogi'r clinigwyr i dderbyn dystiolaeth gan y cleifion.

Esboniodd rheolwr y practis y broses ar gyfer cael mynediad i'r adeilad. Rheolwyd

mynediad drwy system apwyntiadau ffôn lem erbyn hyn, lle yr oedd y cleifion yn cael eu hadolygu gan glinigydd cyn cael cynnig ymgynghoriad wyneb yn wyneb. Nid oedd mynediad arall i'r adeilad. Roedd y staff yn gweithio gartref lle y bo'n bosibl er mwyn lleihau nifer y bobl yn y practis. Ar ôl cytuno ar apwyntiad wyneb yn wyneb, roedd y cleifion yn cael cyfarwyddiadau llym ar gyfer dod i'r practis, ac roedd asesiad risg hefyd yn cael ei gynnal gyda'r cleifion, a oedd yn cynnwys cadarnhad nad oedd ganddynt unrhyw arwyddion na symptomau COVID-19.

Cawsom wybod nad oedd y practis wedi cael unrhyw broblemau'n cael gafael ar Gyfarpar Diogelu Personol (PPE) yn ystod y pandemig. Roedd PPE priodol ar gael i'r staff yn yr adeilad, ac roedd rheolwr y practis yn teimlo bod digon wrth gefn.

Dywedodd rheolwr y practis ei bod hefyd yn gwneud sawl newid amgylcheddol yn dilyn asesiad risg amgylcheddol wedi'i ddiweddarau a gwblhawyd yn sgil COVID-19. Ymdrinnir â hyn ymhellach yn adran Yr Amgylchedd yr adroddiad hwn.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Cawsom wybod bod dau bartner ac un uwch-ymarferydd nyrsio wedi cwblhau hyfforddiant PPE, ond bod aelodau eraill o'r staff yn aros i'w gwblhau. Yn ogystal â hyn, nid oedd rheolwr y practis yn gallu cadarnhau a oedd hebryngwyr wedi cwblhau hyfforddiant PPE.

Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod priodol o'r staff yn cwblhau hyfforddiant ar ddefnyddio PPE yn effeithiol er mwyn diogelu'r staff a'r cleifion yn y practis.

Yr Amgylchedd

Yn ystod y broses hon, gwnaethom gwestiynu'r practis am y ffordd maent yn gwneud yn siŵr bod yr holl gleifion yn cael mynediad diogel a phriodol i wasanaethau.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom fod cyfres o asesiadau risg wedi'u diweddarau wedi cael eu cynnal i nodi anghenion penodol yn sgil pandemig COVID-19. Cawsom wybod bod y newidiadau a wnaed o ganlyniad i'r asesiadau risg hyn yn cynnwys newid carped i lawr finyl, gwella'r ffordd y rhoddir taflenni a gohebiaeth i'r cleifion a sicrhau bod y sgriniau yn y dderbynfa yn diogelu'r staff a'r cleifion yn llwyr.

Roedd pob galwad yn cael ei brysbennu gan glinigydd, ac roedd y mwyafrif helaeth o apwyntiadau yn cael eu cynnal drwy delegynadledda neu fideo-gynadledda. Os bydd angen cynnal ymgynghoriadau wyneb yn wyneb, yna caiff asesiad risg ei gwblhau er mwyn sicrhau na ragwelir bod gan y cleifion symptomau COVID-19. Darparwyd cyfarwyddiadau llym ar gyfer dod i mewn i'r practis i'r cleifion hefyd er mwyn sicrhau bod cyn lleied o gerdded o gwmpas â phosibl.

Pan oedd y pandemig ar ei waethaf, dywedwyd wrthym fod llawer o glinigau a gwasanaethau wedi'u lleihau yn sylweddol neu wedi dod i ben. Symudwyd rhai clinigau, megis clinigau anadlol lle roedd adolygiadau blynyddol yn cael eu cynnal, i delegynadledda neu fideo-gynadledda. Dywedwyd wrthym fod eraill, megis pigiadau B12, yn cael eu hadolygu fesul achos unigol gan glinigydd cyn cytuno arnynt yn ystod y cyfnod hwn. Cawsom wybod hefyd fod yr apwyntiadau hyn wedi cael eu hymestyn fel bod digon o amser ar eu cyfer er mwyn osgoi cael mwy nag un claf yn y practis ar yr un pryd.

Cawsom wybod bod system rhagrybuddio ar waith a oedd yn nodi cleifion a oedd yn gwarchod, neu gleifion ar y gronfa ddata clefydau cronig a allai fod yn hynod agored i niwed yn glinigol. Roedd hyn yn galluogi'r clinigydd i ystyried hyn wrth drafod trefniadau ymgynghori. Dywedwyd wrthym fod yr holl gleifion a oedd yn galw yn gallu siarad â chlinigydd mewn rhyw ffordd, felly nid oedd angen i staff anghlinigol brysennu cleifion.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn cynnal ymweliadau â chartrefi ac ymweliadau â chartrefi gofal o hyd. Eglurodd rheolwr y practis fod meddygon teulu yn cwblhau asesiad risg i ddechrau er mwyn sicrhau ei bod yn ddiogel iddynt gynnal ymweliadau. Dywedwyd wrthym fod cyfarpar llawn yn cael ei ddarparu, gan gynnwys pecynnau PPE. Roedd meddygon teulu yn gyfrifol am sicrhau bod pob darn o gyfarpar o fewn y pecynnau hyn yn cael ei ddychwelyd yn lân ac felly roeddent hefyd yn derbyn digon o ddeunyddiau glanhau ar gyfer pob pecyn.

Roedd asesiadau risg yn cael eu cynnal ar yr holl staff i sicrhau eu bod yn ddiogel yn y practis, ac roedd trefniadau yn cael eu gwneud i ddarparu ar gyfer y staff yr ystyrid eu bod mewn perygl.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y broses hon, gwnaethom fwrw golwg dros bolisiâu rheoli heintiau, amserlenni glanhau a hyfforddiant staff. Gwnaethom hefyd gwestiynu'r lleoliad am y ffordd y mae'r newidiadau y mae wedi'u cyflwyno i wneud yn siŵr bod safonau rheoli heintiau priodol yn cael eu cynnal.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Cawsom wybod bod yr holl staff wedi cael taflen wybodaeth am atal a rheoli heintiau i'w helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Gwelsom dystiolaeth o'r amserlenni glanhau a chofnodion yr hapwiriadau a oedd yn cael eu cwblhau bob mis. Roedd y camau gweithredu o'r hapwiriadau hyn yn cael eu nodi yn y cofnodlyfr.

Dywedwyd wrthym fod y cleifion a oedd yn dod i'r practis yn cael cyfarwyddiadau penodol cyn dod i'w hapwyntiad, er mwyn sicrhau bod cyn lleied o gerdded o gwmpas â phosibl ac atal y cleifion rhag aros yn y practis ar yr un pryd. Roedd y cleifion yr amheuid bod ganddynt salwch heintus yn cael eu hebrwng drwy'r fynedfa ochr yn y brif gangen i ystafell ynysu a oedd wedi'i gwagio er mwyn lleihau achosion o groes-halogi.

Dywedwyd wrthym y paratowyd pecynnau parod, gan ragweld y byddai angen cynnal apwyntiadau yn y gymuned, er mwyn sicrhau bod gan y clinigwyr gyfarpar addas i ymweld â chartrefi. Unwaith yr oeddent wedi cael eu defnyddio, roedd yr eitemau o gyfarpar untro yn cael eu rhoi mewn bag priodol a'u gwaredu mewn biniau gwastraff clinigol yn y practis pan fyddai clinigydd yn dychwelyd.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Ni chawsom unrhyw dystiolaeth i ddangos bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau a chadarnhaodd sgwrs â rheolwr y practis mai dim ond nifer cyfyngedig o'r staff a oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf. Ymdriniwyd â'n pryderon am atal a

rheoli heintiau fel rhan o'n proses sicrwydd uniongyrchol. Roedd hyn yn golygu ein bod wedi ysgrifennu at y practis yn union wedi'r arolygiad gan nodi bod angen cymryd camau unioni brys. Ceir manylion am y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad A.

Llywodraethu

Fel rhan o'r safon hon, gwnaeth AGIC adolygu polisiâu a gweithdrefnau ar gyfer argyfyngau pandemig yn y dyfodol. Gwnaethom hefyd gwestiynau'r lleoliad am y ffordd mae wedi addasu ei wasanaeth yn sgil pandemig COVID-19, sut mae'n rhyngweithio â gweithwyr gofal sylfaenol proffesiynol ehangach a'i brosesau rheoli risg.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Dywedwyd wrthym fod lefelau staffio wedi cael eu rheoli'n dda yn ystod y pandemig heb amharu dim ar y gwasanaeth. Ar y pryd, roedd un aelod o'r staff yn absennol oherwydd salwch.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod cyfarfodydd rhwng y meddygon teulu partner wedi parhau i gael eu cynnal yn ystod y pandemig. Fodd bynnag, roedd cyfarfodydd staff eraill wedi'u hoedi. Roedd y cyfarfodydd hyn yn ailddechrau'n raddol erbyn hyn.

Dywedwyd wrthym fod trefniadau gofal eilaidd yn gweithio'n dda a'u bod wedi parhau drwy gydol y pandemig. Nodwyd bod gwasanaethau fflebotomi wedi cael eu hoedi ar hyn o bryd ac roedd rheolwr y practis yn monitro'r sefyllfa'n rheolaidd er mwyn sicrhau nad oedd yn effeithio ar ofal y cleifion.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Nid oedd y practis yn gallu darparu tystiolaeth yn ymwneud â hyfforddi ac archwilio o fewn amserlen resymol. Mae angen y wybodaeth hon er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC fod trefniadau llywodraethu cynhwysfawr ar waith yn y practis. Mae'n ofynnol i'r practis sicrhau bod prosesau rheoli a llywodraethu priodol ar waith er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn unol â'r safonau gofynnol, ac yn cydymffurfio â pholisiâu'r bwrdd iechyd i gynnal diogelwch a chydymffurfiaeth. Aethpwyd i'r afael â'n pryderon ynglŷn â'r trefniadau llywodraethu o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Ceir manylion am y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad A.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau yn ystod ein gwiriad, y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain isod:

Lle mae angen cynllun gwella, dylid:

- Nodi'n glir sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC

Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Canolfan Feddygol The Stables
Ardal: Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Dyddiad y Gwiriad Ansawdd: 08 Medi 2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth				
<u>Canfyddiad</u> Nid oedd gan y practis drefniadau addas ar waith ar gyfer rhoi hyfforddiant gorfodol i'r staff. <u>Yr hyn sydd angen ei wella</u> Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod priodol o'r staff yn cael hyfforddiant gorfodol, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, atal a rheoli heintiau, dadebru cardio-pwlmonaidd (CPR) a diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed.	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi	Mae'r practis wedi tanysgrifio i system hyfforddiant ar-lein y Blue Stream Academy. Mae'r system hon yn hysbysu'r staff a'r rheolwyr pan fydd angen adnewyddu unrhyw hyfforddiant a gwblhawyd. Cafwyd oedi yn yr hyfforddiant gan fod sesiwn PET wedi'i gohirio ac yn sgil pandemig COVID-19. Mae pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant Rheoli Heintiau a Llywodraethu Gwybodaeth erbyn hyn. Mae'r hyfforddiant CPR yn gyfredol. Roedd angen adnewyddu hyfforddiant y staff clinigol ym mis Ebrill, ond nid oedd	Sue Carey	6 mis

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		modd ei gwblhau wyneb yn wyneb felly caiff ei gwblhau ar-lein erbyn diwedd mis Hydref Ein blaenoriaeth nesaf yw diogelu a chaiff yr hyfforddiant gorfodol sy'n weddill ei gwblhau cyn gynted â phosibl		
<u>Canfyddiad</u> Nid oedd y practis yn gallu darparu tystiolaeth yn ymwneud â hyfforddi nac archwilio o fewn amserlen briodol, ac mae'r wybodaeth hon yn ofynnol i roi sicrwydd i AGIC fod trefniadau Llywodraethu cynhwysfawr ar waith yn y practis. <u>Yr hyn sydd angen ei wella</u> Bod prosesau a gweithdrefnau rheoli llywodraethu priodol ar waith er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth yn unol â'r safonau gofynnol, ac yn cydymffurfio â pholisïau'r bwrdd iechyd i gynnal diogelwch a chydymffurfiaeth.	Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	Mae'r practis wedi tanysgrifio i system hyfforddiant ar-lein y Blue Stream Academy. Mae'r system hon yn hysbysu'r staff a'r rheolwyr pan fydd angen adnewyddu unrhyw hyfforddiant a gwblhawyd. Cafwyd oedi yn yr hyfforddiant gan fod sesiwn PET wedi'i gohirio ac yn sgil pandemig COVID-19. Mae pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant Rheoli Heintiau a Llywodraethu Gwybodaeth erbyn hyn. Mae'r hyfforddiant CPR yn gyfredol. Roedd angen adnewyddu hyfforddiant y staff clinigol ym mis Ebrill, ond nid oedd modd ei gwblhau wyneb yn wyneb felly	Sue Carey	4 wythnos

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
		caiff ei gwblhau ar-lein erbyn diwedd mis Hydref Ein blaenoriaeth nesaf yw diogelu a chaiff yr hyfforddiant gorfodol sy'n weddill ei gwblhau cyn gynted â phosibl		

Cynllun gwella

Lleoliad: Practis Meddygol The Stables

Ward/Adran/Gwasanaeth (dileer fel y bo'n briodol): Practis Meddyg Teulu

Dyddiad y gweithgarwch: 08 Medi 2020

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod Gwiriad Ansawdd Haen 1, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Noder, disgwylir i bob cam gweithredu gael ei gwblhau o fewn tri mis i'r Gwiriad Ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r Cynllun Gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Rhif Cyfeirnod	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/Rheoliad	Cam Gweithredu'r Gwasanaeth	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
1	Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod priodol o'r staff yn cwblhau hyfforddiant ar ddefnyddio PPE yn effeithiol er mwyn diogelu'r staff a'r cleifion yn y practis.	HSE	Cwblhaodd y tri aelod o'r staff a oedd yn weddill eu hyfforddiant ar 7 a 14 Hydref	Sue Carey	Wythnos

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Enw: Sue Carey

Dyddiad: 14/10/2020